



At:

Awdurdodau Lleol yng Nghymru  
(At sylw Swyddogion Cyllid Myfyrwyr)  
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu  
cyrsiâu Addysg Uwch dynodedig  
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu  
cyrsiâu Addysg Uwch dynodedig  
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr  
UCAS  
Y Brifysgol Agored yng Nghymru  
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru  
UCM Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mehefin 2012

Annwyl Gyfaill

## **CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH YN 2012/13:**

### **RHEOLIADAU GRANTIAU A BENTHYCIADAU DYSGU Y CYNULLIAD (ADDYSG UWCH) (CYMRU) (Rhif 2) 2011**

Bellach, mae'r canlynol wedi dod i rym: Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 (OSC 2011 Rhif 886 (Cy.130)) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth) (Cymru) 2011 (OSC 2011 Rhif 1978 (Cy.218)); Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2012 (OSC 2012 Rhif 14 (Cy.5)) a Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2012 (OSC 2012 Rhif 1156 (Cy.139)), (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "y Rheoliadau").

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth o ran y cymorth sydd ar gael i fyfirwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig (neu sy'n un o wladolion gwlad o fewn yr UE y tu allan i'r DU ac yn dilyn cyrsiau AU dynodedig yng Nghymru) yn y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny.

Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau'r newidiadau arfaethedig a gynhwyd yn SFWIN 01/2012 mewn perthynas â sefydliadau preifat, dysgu o bell yn llawn-amser, cymorth i garcharorion, cymorth rhan-amser, a chyrsiâu deintyddol a meddygol i raddedigion. Rhoddir eglurhad pellach ar rai materion eraill.

Gallwch lawrlwytho copiâu electronig o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 o wefan OPSI yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/886/contents/made>

Dylai'r sefydliadau hynny y mae angen copiâu papur arnynt o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol ffonio, anfon e-bost neu ysgrifennu i'r Llyfrfa (gweler y manylion cyswllt isod).

## **YMHOLIADAU**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch yn y lle cyntaf â'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru - e-bost: [studentfinancedivision@wales.qsi.gov.uk](mailto:studentfinancedivision@wales.qsi.gov.uk)

## **ARCHEBU COPIAU O'R RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR**

Gellir archebu copi o'r Rheoliadau o'r Llyfrfa yn:

TSO Orders/ Post Cash Dept  
PO Box 29  
Norwich  
NR3 1GN

Ffôn: 0870 600 5522

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

### **Cymorth rhan-amser**

Nid oes unrhyw newidiadau i'r cymorth yn 2012/13 i fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru (ac eithrio ymestyn y cyfnod cais i 9 mis).

Mae'r rheoliadau (adran 106) yn rhoi'r hawl yn ôl disgrisiwn i dalu cymorth ffioedd i fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru sy'n astudio yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ni fydd swm y cymorth yn fwy na'r lleiaf o'r canlynol:

- (a) y cymorth ffioedd sy'n daladwy i fyfyrwr rhan-amser cymwys pe bai'r myfyrwr wedi bod yn astudio yng Nghymru;
- (b) y cymorth ffioedd sy'n daladwy i fyfyrwr rhan-amser cymwys pe bai'r myfyrwr yn preswyl fel arfer yn Lloegr ac yn dilyn y cwrs yn Lloegr (neu gymorth cyfatebol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon).

### **Blwyddyn ychwanegol oherwydd Rhesymau Personol**

Mae'r rheoliadau diwygio yn rhoi'r disgrisiwn i awdurdodau lleol ganiatáu i flwyddyn ychwanegol gael ei hychwanegu at gyfnod cymhwyster myfyrwr lle na wnaeth y myfyrwr hwnnw gwblhau'r cwrs blaenorol diweddaraf oherwydd Rhesymau Personol, a lle mae'r awdurdod lleol yn nodi y byddai'n briodol rhoi'r flwyddyn ychwanegol o ystyried y rhesymau hynny. Ni ddisgwylir i hyn fod yn berthnasol i ryw lawer iawn o fyfyrwyr, ond y gallai'r disgrisiwn hwn fod yn hynod fuddiol lle bo angen.

Nid yw'r bennod Asesu Cymhwyster ar gyfer 2012/13 yn cyfeirio'n benodol at gynnig blwyddyn ychwanegol oherwydd Rhesymau Personol.

### **Myfyrwyr Newydd 2012/13 yn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o lai na £3,465**

Gall myfyrwyr Cymru wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu o lai na £3,465 ond bydd angen iddyn nhw eu hunain ariannu unrhyw fenthyciad sy'n fwy na hyn. Uchafswm y grant ffioedd newydd sydd ar gael yw £5,535. Byddai'n rhaid i unrhyw ffioedd sy'n fwy na'r benthyciad ffioedd dysgu a'r grant ffioedd newydd gael eu talu gan y myfyrwr, er enghraifft:

Costau Sefydliad Addysg Uwch a ariennir gan y sector cyhoeddus		£8,000
Myfyrwr yn penderfynu cymryd benthyciad ffioedd llai	£1,200	
Myfyrwr yn cael grant ffioedd (£8,000 - £3,465)	£4,535	
Y gweddill i'w dalu gan y myfyrwr (gwahaniaeth rhwng £3,465 a £1,200)	£2,265	
Cyfanswm	£8,000	£8,000

### **Cenedligrwydd deuol - cymhwyster o ran cymorth i fyfyrwyr**

Mae cwestiwn wedi'i godi ynghylch myfyrwyr o Ogledd Iwerddon sydd â phasbortau hefyd o Weriniaeth Iwerddon ac a all myfyrwyr o'r fath fod yn gymwys am gymorth fel gwladolion un

o wledydd yr UE ac felly i dderbyn y pecyn cymorth ffioedd mwy buddiol sydd ar gael yng Nghymru.

Mae'r mwyafrif o wladolion y DU wedi'u heithrio o'r paragraffau cymhwyster yn y rheoliadau sy'n ymwneud â gwladolion gwledydd yr UE. Felly, gan ei bod yn debygol bod myfyrwr Gogledd Iwerddon sydd â phasbortau Gwyddelig hefyd yn wladolion y DU, ni fyddant yn gallu hawlio cymorth o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr (fel gwladolion gwledydd yr UE) a bydd angen iddynt edrych ar ddeddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon.

Yn y rhan fwyaf o achosion, felly, caiff gwladolion y DU eu heithrio o'r diffiniad o wladolion gwledydd yr UE at ddibenion cymhwyster cymorth i fyfyrwyr. Yr unig eithriad yw'r gwladolion hynny o'r DU sydd wedi arfer 'hawl i breswyllo'. Yn sylfaenol, pobl o'r DU sydd wedi byw'n annibynnol mewn gwlad arall yn yr UE am gyfnod diffiniedig yw gwladolion y DU 'sydd wedi arfer hawl i breswyllo'.

I grynhoi, p'un a yw ymgeisydd o Ogledd Iwerddon wedi gweithio neu astudio yn yr UE yn y gorffennol fydd yr elfen hollbwysig wrth benderfynu a yw'n gymwys i gael cymorth ffioedd o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, yn hytrach na ph'un a oes ganddo basbort Gwyddelig.

### ***Caniatâd i aros yn ôl disgrisiwn***

Yng Nghymru, daeth Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth)(Cymru) 2011 i rym ar 31 Awst 2011. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw ehangu'r diffiniad o "berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" i gynnwys y rheini sydd wedi cael caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac nid oherwydd iddynt fethu yn eu cais am loches yn y gyfres o reoliadau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr a ffioedd dysgu addysg uwch. Bydd y newid hwn o fudd i nifer fach o fyfyrwyr nad oedd yn arfer bod yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref neu ffioedd wedi'u rheoleiddio. Maent hefyd yn diwygio'r diffiniad o "aelod o deulu" yn Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) 2009. Mae gan Loegr reolau gwahanol.

Yng Nghymru, yn achos myfyriwr sydd â chaniatâd i aros yn ôl disgrisiwn, ac sy'n preswyllo fel arfer yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, fe'i disgrifir fel Myfyriwr Cartref. Mae swm y ffioedd y gall prifysgol yng Nghymru ei godi yn dibynnu ar b'un a yw myfyriwr yn Fyfyriwr Cartref neu'n Fyfyriwr Tramor. Gall sefydliadau godi ffioedd Myfyriwr Tramor sy'n uwch na'r rheini a godir ar Fyfyriwr Cartref, ond nid oes rheidwydd ar sefydliadau i wneud hynny.

Bydd myfyriwr sydd â chaniatâd i aros yn ôl disgrisiwn yn gymwys i gael cymorth ffioedd mewn perthynas â chyrsgiau a ddynodir gan Weinidogion Cymru os:

- (a) ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig mae'n preswyllo fel arfer yng Nghymru;
- (b) mae wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU am y cyfnod tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

### ***2013/14 – Edrych i'r dyfodol***

Rhagwelir (er gwaethaf cyflwyno'r pecyn rhan-amser newydd) mai ychydig iawn o newidiadau a wneir yn 2013/14 i'r trefniadau llawn-amser. Caiff SFWIN ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar y pecyn.